



## Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

### Cartrefi Gofal – Arweiniad ar gyfer Unigolion Cofrestredig

#### Rhagarweiniad

Mae AGC yn gweithredu system newydd ar gyfer monitro'r modd y gweithredir y trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru.

Mae Cod Ymarfer Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) (Pennod 11) yn datgan bod gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb i fonitro'r modd y gweithredir y trefniadau diogelu a bod ganddynt yr awdurdod i ofyn i unigolion cyfrifol cartrefi gofal i oedolion ddarparu gwybodaeth ar eu cyfer i'r diben hwnnw. Cyflawnir y swyddogaeth hon gan AGC ar ran Gweinidogion Cymru. Mae copi o'r cod ar gael yn (DoLS Code of Practice).

O 1 Mai 2013, mae AGC yn gofyn i unigolion cofrestredig cartrefi gofal i oedolion ddarparu hysbysiad ysgrifenedig, ynghylch yr holl geisiadau am awdurdodiad DoLS, ar ffurflen ragnodedig. Gofynnir am y wybodaeth gan ddefnyddio'r pwerau presennol dan Adran 31(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae Adran 31(1) yn gofyn i unigolyn, sy'n rhedeg neu'n rheoli cartref gofal, ddarparu ar gyfer AGC unrhyw wybodaeth berthnasol i'r cartref gofal y mae'r arolygiaeth yn ystyried bod angen iddi ei chael. Bydd AGC yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro trefniadau DoLS mewn cartrefi gofal ledled Cymru. Caiff y modd y gweithredir prosesau DoLS ei fonitro hefyd drwy samplu trefniadau diogelu, i raddau cyfyngedig, yn ystod ymweliadau arolygu arferol.

#### Hysbysu am achlysur neu ddigwyddiad hysbysadwy

Mae AGC wedi creu ffurflenni hysbysu DoLS i chi eu defnyddio. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan yn [CIW.org.uk](http://CIW.org.uk)

Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i chi ddefnyddio'r ffurflenni hyn. Fodd bynnag, cawsant eu llunio i'ch cynorthwyo i roi'r wybodaeth sydd ei hangen i AGC.

Er mai gofyn i'r unigolion cofrestredig hysbysu AGC y mae'r rheoliadau, rydym yn cydnabod efallai y byddwch, fel yr unigolyn cofrestredig, yn dymuno dirprwyo'r dasg hon i unigolyn/unigolion cymwys eraill.

### **Cwblhau'r ffurflen hysbysu**

Cwblhewch bob adran o'r ffurflen, os gwelwch yn dda. Dyluniwyd y ffurflenni i ddarparu gwybodaeth i ddibenion ystadegau. Byr yw'r ffurflen ac ni ddylai gymryd ond munud i'w chwblhau.

### **Data Personol**

Dylai ffurflenni hysbysu am drefniadau diogelu rhag colli rhyddid sydd wedi eu cwblhau gynnwys enw a dyddiad geni'r defnyddiwr gwasanaeth dan sylw.

### **Cyflwyno'r ffurflen hysbysu**

Gellir anfon ffurflenni wedi eu cwblhau:-

Trwy **e-bost diogel** at eich swyddfa AGC leol:

- Gogledd Cymru – [CSSIW-Notifications-North@Wales.GSI.Gov.UK](mailto:CSSIW-Notifications-North@Wales.GSI.Gov.UK)
- De-ddwyrain Cymru – [CSSIW-Notifications-SouthEast@Wales.GSI.Gov.UK](mailto:CSSIW-Notifications-SouthEast@Wales.GSI.Gov.UK)
- De-orllewin Cymru – [CSSIW-Notification-SouthWest@Wales.GSI.Gov.UK](mailto:CSSIW-Notification-SouthWest@Wales.GSI.Gov.UK)

Trwy **bost wedi'i recordio** at eich swyddfa AGC leol:

<b>Arolygiaeth Gofal Cymru,</b> Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno. LL31 9RZ Ffacs: 0872 437 7301	<b>Arolygiaeth Gofal Cymru,</b> Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Busnes, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful. CF48 1UZ Ffacs: 0872 437 7302	<b>Arolygiaeth Gofal Cymru,</b> Adeiladau'r Llywodraeth, Teras Picton, Caerfyrddin. SA31 3BT Ffacs: 0872 437 7303
---	---	---

### **Rhaid peidio ag anfon ffurflenni wedi eu cwblhau yn syth at staff penodol yn AGC.**

### **Beth fydd AGC yn ei wneud pan fydd yn derbyn ffurflen hysbysu DoLS?**

Bydd hysbysiadau DoLS a anfonir i flychau post y cyfrif e-bost ar gyfer hysbysiadau yn derbyn cydnabyddiaeth awtomataidd. Os byddwch wedi anfon hysbysiad i'r blwch post a heb dderbyn cydnabyddiaeth o fewn 2 ddiwrnod gwaith, cysylltwch â'r swyddfa AGC y gwnaethoch gyflwyno'r hysbysiad iddi (ceir ein manylion cyswllt ar ddiwedd y nodyn arweiniad hwn).

Dim ond am hysbysiadau a ddaw i mewn i flychau post y cyfrif e-bost y byddwn yn anfon cydnabyddiaeth.

Caiff yr holl hysbysiadau eu hystyried gan AGC o fewn pum diwrnod.

### **Hysbysiad Preifatrwydd**

Dylai ffurflenni hysbysu am drefniadau diogelu rhag colli rhyddid sydd wedi eu cwblhau gynnwys enw a dyddiad geni'r defnyddiwr gwasanaeth dan sylw.

Pan fyddwn yn derbyn ffurflen hysbysu sydd wedi ei chwblhau byddwn yn cofnodi'r wybodaeth fydd wedi ei chynnwys ar y ffurflen.

Weithiau bydd angen i ni rannu'r wybodaeth honno gyda rheoleiddwyr eraill, awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn iddynt benderfynu a oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau gweithredu i ddiogelu unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Yn unol â'r gyfraith byddwn yn sicrhau y cedwir unrhyw wybodaeth bersonol yn ddiogel.

### **Mae gen i rai cwestiynau eraill?**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, cysylltwch a swyddfa AGC, os gwelwch yn dda.

### **AGC Gogledd Cymru**

Adeiladau'r Llywodraeth

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

**Ffôn:** 0300 7900 126 **Ffacs:** 0872 437 7301

**E-bost:** [CSSIW.north@wales.gsi.gov.uk](mailto:CSSIW.north@wales.gsi.gov.uk)

### **AGC De-ddwyrain Cymru**

Swyddfeydd y Llywodraeth

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

**Ffôn:** 0300 7900 126 **Ffacs:** 0872 437 7302

**E-bost:** [CSSIW.southeast@wales.gsi.gov.uk](mailto:CSSIW.southeast@wales.gsi.gov.uk)

### **AGC De-orllewin Cymru**

Adeiladau'r Llywodraeth

Heol Picton

Caerfyrddin

SA31 3BT

**Ffôn:** 0300 7900 126 **Ffacs:** 0872 437 7303

**E-bost:** [CSSIW.southwest@wales.gsi.gov.uk](mailto:CSSIW.southwest@wales.gsi.gov.uk)

Rydym yn awyddus i wella'r ffordd yr ydym yn rhoi gwybodaeth i bobl. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sut y gellid gwella'r daflen hon, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda:

drwy ein gwefan: [wefan AGC](#) drwy ffonio, anfon neges e-bost neu ysgrifennu gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

**AGC**

Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Rhyd-y-car  
CF48 1UZ

**Ffôn:** 0300 7900 126

**E-bost:** <mailto:CIW@wales.gsi.gov.uk>